Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi safbwynt teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig y Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

Dafydd Elis Thomas
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
16 Hydref 2018

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 (Gorchymyn 2018) yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1994 (Gorchymyn 1994).

1.2 Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Deddf 1990) yn esemptio adeiladau rhestredig a ddefnyddir at ddibenion eglwysig rhag rhai o ddarpariaethau'r Ddeddf honno, gan gynnwys yr angen i gael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer mathau penodol o waith ar adeiladau hanesyddol. Mae Gorchymyn 2018 yn cyfyngu'r esemptiad hwn i'r enwadau hynny a restrir yn y Gorchymyn. Mae'r enwadau hynny wedi dangos bod ganddynt drefniadau rheolaeth cadarn sy'n gwarchod i'r un graddau â threfniadau'r awdurdodau lleol y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 60(5) a (6), 75(7) ac (8), ac adran 93 o Ddeddf 1990.

3.2 Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1990 (ac eithrio'r swyddogaethau Trysorlys yn adran 83(8) o'r Ddeddf honno), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

3.3 Yn unol â'r darpariaethau yn adran 93(3) o Ddeddf 1990, mae'r offeryn statudol hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae adeiladau hanesyddol yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac mae Deddf 1990 yn darparu ar gyfer rhestru a gwarchod adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Os bydd unrhyw newid neu estyniad yn effeithio ar gymeriad adeilad a restrir oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, bydd yn rhaid cael cydsyniad adeilad rhestredig ar ei gyfer, a hynny oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol fel arfer. Mae amrywiaeth o fesurau statudol ar gyfer adeiladau

rhestredig hefyd, gan gynnwys hysbysiadau gorfodi ac atgyweirio, er mwyn helpu i'w diogelu.

4.2 Mae adran 60(1) a (2) o Ddeddf 1990 yn darparu nad yw adeiladau eglwysig sydd am y tro yn cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig yn dod o dan adrannau 3A, 4, 7 i 9, 47, 54 a 59 o Ddeddf 1990. Mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud â threfniadau rheoli ar gyfer adeiladau rhestredig, gan gynnwys rhestru dros dro, cydsyniad adeilad rhestredig, caffael gorfodol yn achos adeiladau y mae angen eu hatgyweirio, y mae angen gwaith diogelu brys arnynt, a throseddau'n ymwneud â difrod bwriadol.

4.3 Mae adran 69 o Ddeddf 1990 yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi ardaloedd o fewn eu hawdurdodaeth yn ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu neu wella eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae adran 74 yn darparu bod yn rhaid peidio â dymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth heb gael cydsyniad ardal gadwraeth yn gyntaf.

4.4 Mae adran 75 yn pennu esemptiadau rhag darpariaethau adran 74, gan gynnwys adeiladau eglwysig y'n cael eu defnyddio am y tro at ddibenion eglwysig.

4.5 Yr enw cyffredin ar yr esemptiadau hyn ar gyfer adeiladau crefyddol sy’n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig yw'r 'esemptiad eglwysig' ac mae'n adlewyrchu anghenion penodol adeiladau rhestredig sy'n cael eu defnyddio fel mannau addoli. Mae'r esemptiad yn gymwys i bob man addoli beth bynnag y bo’r grefydd er bod adrannau 60(3) a 75(5) yn eithrio adeilad a ddefnyddir gan weinidog yr efengyl yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel preswylfa.

4.6 Yn ymarferol, roedd yr esemptiad eglwysig yn cael ei gyfyngu i enwadau penodol drwy Orchymyn 1994. Roedd yr enwadau hynny'n gallu dangos bod ganddynt systemau rheolaeth a oedd yn g olygu bod modd craffu a gwarchod i'r un graddau ag o dan drefniadau seciwlar yr awdurdodau cynllunio lleol.

4.7 O dan Orchymyn 1994, cafodd yr esemptiad ei gadw ar gyfer adeiladau eglwysig:

- Yr Eglwys yng Nghymru;
- Eglwys Loegr;
- Yr Eglwys Gatholig;
- Yr Eglwys Fethodistaidd;
- Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr;
- Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

4.8 Yng Nghymru, roedd Gorchymyn 1994 yn cyfyngu'r esemptiad i unrhyw adeilad eglwysig, neu i unrhyw wrthrych neu adeiledd y tu mewn iddo

neu'n sownd wrtho ac i unrhyw adeiledd neu wrthrych sy'n rhan o dir y cwrtil oni bai bod y gwrthrych yn rhestredig yn ei hawl ei hun.

4.9 Roedd Gorchymyn 1994 yn gymwys i Gymru a Lloegr pan ddaeth i rym ond cafodd ei ddiddymu yn Lloegr yn 2010 a'i ddisodli gan Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Lloegr) 2010.

*Newidiadau yng Ngorchymyn 2018*

4.10 Mae Gorchymyn 2018 yn gwneud tri newid allweddol i'r trefniadau yng Ngorchymyn 1994:

- tynnu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig o'r rhestr o enwadau esempt;
- dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth
- estyn yr esemptiad eglwysig fel ei fod yn gymwys i adeileddau cwrtil a restrwyd ar wahân. Bydd hynny'n fodd i roi terfyn ar sefyllfaoedd lle'r oedd angen cydsyniadau seciwlar ar gyfer yr adeileddau hynny.

4.11 Mae'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig wedi gofyn i gael ei thynnu o'r rhestr o enwadau esempt yng Nghymru ac i gael mynd yn ôl at y trefniadau rheoli seciwlar o dan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r esemptiad yn cael ei gadw ar gyfer y pum enwad arall yng Ngorchymyn 1994.

4.12 Dim ond er mwyn dymchwel adeilad y mae angen cydsyniad ardal gadwraeth. Roedd yr esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth a Gorchymyn 1994 yn rhagflaenu penderfyniad cyfreithiol ‘Shimizu’[1] ym 1997. Y dyfarniad yn yr achos hwnnw oedd bod dymchwel yn golygu dymchwel adeilad yn llwyr neu bron yn llwyr a bod unrhyw beth llai yn addasiad nad oes angen cydsyniad ardal gadwraeth ar ei gyfer. Mae Deddf 1990 yn dweud mai dim ond os yw adeilad yn cael ei ddefnyddio am y tro at ddibenion eglwysig y caiff yr esemptiad fod yn gymwys, a byddai hynny, i bob pwrpas, yn ei atal rhag cael ei ddymchwel. Yr unig bryd y gallai cydsyniad ardal gadwraeth fod yn gymwys yw os bwriedir dymchwel rhan fawr o'r adeilad a pharhau i wneud defnydd eglwysig o'r rhan sydd ar ôl. O gofio mai yn anaml iawn y mae'r esemptiad eglwysig yn gymwys yn achos cydsyniad ardal gadwraeth, dilëwyd y ddarpariaeth hon a bwriedir ymdrin â phob cais o dan y system seciwlar.

4.13 Mae Gorchymyn 2018 yn dilyn y trefniadau blaenorol, gan gyfyngu’r esemptiad i adeilad eglwysig, neu i unrhyw wrthrych neu adeiledd sy’n sownd iddo ac i unrhyw wrthrych neu adeiledd o fewn ei gwrtil. Fodd bynnag, mae’r Gorchymyn yn ehangu’r trefniadau blaenorol drwy wneud yr esemptiad yn gymwys i wrthrychau ac adeileddau o fewn cwrtil adeilad eglwysig sy’n rhestredig yn eu hawl eu hunain. Nod y newid hwn

[1] Shimizu (UK) Ltd v Westminster City Council [1997] 1 All E.R. 481

yw sicrhau eglurder drwy ddarparu bod yr esemptiad yn gymwys i bopeth o fewn cwrtil adeilad eglwysig, a lleihau beichiau gweinyddol drwy ddarparu ar gyfer un ffordd yn unig o arfer rheolaeth yn lle bod angen cydsyniad enwadol yn ogystal â chydsyniad adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae darpariaeth drosiannol yng Ngorchymyn 2018 i'r perwyl mai'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yn parhau i benderfynu ar gais am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwrthrych neu adeiledd sydd o fewn y cwrtil os bydd y cais hwnnw'n cael ei wneud cyn i Orchymyn 2018 ddod i rym.

4.14 Bydd y Gorchymyn newydd a'r canllawiau cysylltiedig ar yr esemptiad eglwysig yn rhoi systemau clir ac effeithiol i enwadau esempt a fydd yn eu galluogi i ddiogelu ac i reoli eu mannau addoli rhestredig yn unol â'r un safon a welir yn y system seciwlar o reoli adeiladau rhestredig a ddefnyddir gan awdurdodau cynllunio lleol. Bydd hynny'n eu helpu i gynnal a chadw eu mannau addoli rhestredig ac i'w haddasu mewn ffordd sensitif wrth i anghenion eu cynulleidfaoedd newid fel y bo'r adeiladau gwerthfawr hyn yn gallu parhau i fod yn elfennau hanfodol o gymunedau ffyniannus yng Nghymru.

## 5. Ymgynghori

5.1 Gofynnwyd tri chwestiwn am y Gorchymyn yn ystod ymgynghoriad ehangach a gynhaliwyd rhwng 16 Ebrill 2018 a 13 Gorffennaf 2018.

5.2 Gofynnwyd i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy a oeddent yn cytuno y dylid dileu'r esemptiad ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth. Daeth tri deg pump atebion i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd 31 (88%) ohonynt yn cytuno, a dim ond un oedd yn gwrthwynebu'r cynnig. Mewn ymateb i sylwadau manwl a wnaed, diwygiwyd y canllawiau ategol er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am yr amgylchiadau pryd y bydd angen cydsyniad ardal gadwraeth.

5.3 Roed yr ail gwestiwn yn gofyn i'r ymgyngoreion a oeddent yn cytuno y dylid ystyried unrhyw adeiledd, boed yn rhestredig ai peidio, sydd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig yn rhan o'r adeilad eglwysig hwnnw at ddibenion yr esemptiad eglwysig. Daeth tri deg pump o ymatebion i law ac roedd mwyafrif sylweddol (25 / 71%) yn cytuno â'r cynnig, gan gynnwys sefydliadau crefyddol ac awdurdodau lleol. Y farn gyffredin oedd y byddai'r newid yn fodd i sicrhau eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am roi cydsyniad. Er hynny, roedd chwech (17%) o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig, gan ddweud mai'r unig adeileddau y dylai'r esemptiad fod yn gymwys iddynt yw'r rheini sy'n cael eu defnyddio ar gyfer addoli.

5.4 Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn a oedd yr ymgyngoreion yn cytuno nad oedd Gorchymyn drafft 2018 yn gwneud unrhyw newidiadau eraill o sylwedd i Orchymyn 1994. O'r 34 o ymatebion, roedd 28 (82%) yn cytuno a dim ond 1 (3%) oedd yn anghytuno. Dywedodd nifer o'r ymgyngoreion fod y ffordd y mae'r esemptiad yn cael ei harfer ledled

Cymru yn amrywio o ran ansawdd a bod angen i Lywodraeth Cymru fonitro'n agosach. Bydd y canllawiau a baratowyd i gyd-fynd â Gorchymyn 2018 o gymorth yn hynny o beth drwy ddarparu cod ymarfer i'r enwadau ei ddilyn wrth weinyddu'r esemptiad eglwysig. Bydd y canllawiau hynny hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer adrodd a monitro.

5.5 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru: [https://beta.llyw.cymru/esemptiad-eglwysig-chanllawiau-ar-henebion-cofrestredig](https://beta.llyw.cymru/esemptiad-eglwysig-chanllawiau-ar-henebion-cofrestredig)

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### Opsiwn 1 – Gwneud dim – Cadw Gorchymyn 1994

### Disgrifiad

6.1 O dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau a sefydlwyd gan Orchymyn 1994 yn cael eu cadw.

6.2 Byddai'r un chwe enwad yn parhau i gael eu hesemptio rhag y dulliau rheoli seciwlar ar gyfer adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth.

6.3 Byddai prif adeilad yr eglwys yn dod o dan yr esemptiad, ac felly hefyd unrhyw adeileddau heb eu rhestru o fewn cwrtil yr adeilad hwnnw. Fodd bynnag, byddai gofyn o hyd dal gael cydsyniad adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol, ynghyd ag unrhyw gydsyniad enwadol penodol ar gyfer gwaith ar adeiledd a restrwyd ar wahân sydd o fewn cwrtil y prif adeilad eglwysig.

### Costau

6.4 Ni fyddai cadw'r gofynion presennol yn arwain at unrhyw newidiadau uniongyrchol i'r costau ar gyfer yr enwadau esempt.

6.5 Byddai peidio â newid y rhestr o enwadau esempt yn rhoi pwysau ar yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig drwy ei gwneud yn ofynnol iddi gynnal y systemau a'r arbenigedd ar gyfer ystyried ceisiadau am waith ar ei eglwysi rhestredig yng Nghymru er gwaethaf y cais a wnaed ganddi i fynd yn ôl at drefniadau rheoli seciwlar.

6.6 O'i gwneud yn ofynnol i'r enwadau esempt gael cydsyniad enwadol yn ogystal â chydsyniad adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer gwaith ar adeileddau rhestredig sydd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig, byddai hynny'n golygu y byddai'r trefniadau biwrocrataidd a gweinyddol cymhleth y mae angen i'r enwadau eu dilyn yn parhau.

6.7 Mae Gorchymyn 1994 hefyd yn anodd ei ddeall. Oherwydd iddo gael ei ddisodli yn Lloegr yn 2010, dim ond i Gymru y mae'n gymwys ond mae ynddo ddarpariaethau nad ydynt yn berthnasol i Gymru. Hefyd, dim ond

yn Saesneg y mae ar gael. O’r herwydd, mae’r Gorchymyn yn anodd ei ddeall ac yn peri dryswch i’r rheini y mae angen iddynt ei ddefnyddio.

### Manteision

6.8 Y tro diwethaf i asesiad annibynnol gael ei gynnal o’r ffordd y mae’r esemptiad o dan Orchymyn 1994 yn gweithio oedd yn 2004. Gwelwyd ei fod yn gweithio’n effeithiol ac argymhellwyd y dylai barhau.

6.9 Gan fod y Gorchymyn yn ei le ers 1994, mae’r enwadau a’r awdurdodau cynllunio lleol yn ei ddeall yn dda.

## Opsiwn 2 — Diwygio’r enwadau sydd ag esemptiad yng Ngorchymyn 1994

### Disgrifiad

6.10 O dan yr opsiwn hwn, byddai Gorchymyn 1994 yn cael ei gadw ond yn cael ei ddiwygio er mwyn dileu’r esemptiad ar gyfer yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

### Costau

6.11 Ni fyddai cadw’r gofynion presennol yn arwain at unrhyw newidiadau uniongyrchol i gostau’r enwadau esemnpt. Ni fyddai’r awdurdodau cynllunio lleol yn codi unrhyw daliadau am ystyried a phenderfynu ar geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig, felly ni ddylai’r enwad a fyddai’n gadael y system esemptiad eglwysig wynebu costau uwch.

6.12 Byddai effaith ar yr awdurdodau cynllunio lleol pe baent yn ystyried ceisiadau am gydsyniad yn lle’r Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Mae Cadw yn un o’r ymgyngoreion ar gyfer unrhyw waith arfaethedig o dan y systemau esemptio. Yn 2017–18, dim ond 2 gynnig a ddaeth i law oddi wrth yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig mewn unrhyw ran o Gymru, o blith cyfanswm o 232 ar gyfer yr holl enwadau. Felly, byddai’r gost ychwanegol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yn fach iawn.

6.13 Byddai’r costau eraill a nodwyd yn opsiwn 1 yn berthnasol i’r opsiwn hwn hefyd.

### Manteision

6.14 Mae’r opsiwn hwn yn adlewyrchu dymuniadau’r enwadau unigol o ran cael eu hesemptio rhag y trefniadau rheoli seciwlar ar gyfer adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth ond ni fyddai unrhyw fanteision eraill.

**Opsiwn 3 – Disodli Gorchymyn 1994 â Gorchymyn newydd ac ynddo newidiadau polisi**

6.15 O dan yr opsiwn hwn, byddai Gorchymyn 1994 yn cael ei ddirymu a'i ddisodli gan Orchymyn newydd. Byddai'n tynnu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig o'r rhestr o enwadau esempt, a fyddai'n golygu, unwaith eto, y byddai ei adeiladau eglwysig yn dod o dan y trefniadau seciwlar ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth. Byddai'r Gorchymyn newydd hefyd yn symleiddio gweithdrefnau drwy ddarparu ar gyfer un dull rheoli yn unig ar gyfer adeiladau rhestredig a adeileddau sydd o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig. Byddai hefyd yn gwneud hynny drwy ddileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer cydsyniad ardal gadwraeth. Roedd cefnogaeth gref i'r newidiadau hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Costau**

6.16 Byddai'r awdurdodau cynllunio lleol a'r enwadau esempt yn gwneud arbedion bach drwy ddod ag adeiladau ac adeileddau cwrtil rhestredig o fewn cwmpas yr esemptiad eglwysig. Ni fyddai angen bellach i'r awdurdodau asesu a phenderfynu ar y nifer bach o geisiadau a gyflwynir bob blwyddyn am gydsyniad adeilad rhestredig. Byddai'r enwadau'n cael eu rhyddhau rhag paratoi ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig yn ogystal â pharatoi ceisiadau am eu cydsyniadau mewnol eu hunain.

6.17 Ni fyddai rhoi'r gorau i esemptio enwadau rhag cael cydsyniad ardal gadwraeth yn debygol o arwain at effeithiau mawr o ran costau. Fel yr amlinellir uchod, roedd yr esemptiad yn dyddio o gyfnod cyn dyfarniad Shimizu a ddyfarnodd fod gwaith dymchwel y mae angen cydsyniad ardal gadwraeth ar ei gyfer yn golygu, i bob pwrpas, bod yr adeilad cyfan yn cael ei ddymchwel, ac mai gwaith addasu fyddai unrhyw beth llai. O gofio mai dim ond i adeilad sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig y gall yr esemptiad fod yn gymwys, mae'n anodd rhagweld pryd y gallai enwad roi cydsyniad iddo'i hun ddymchwel adeilad.

6.18 Yn yr un modd ag yn opsiwn 2, byddai rhoi'r gorau i esemptio'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdodau cynllunio lleol, ond disgwylir mai costau bach iawn fyddai'r rheini. Ni fyddai unrhyw gostau i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig oherwydd nad yw awdurdodau cynllunio lleol yn codi ffi am ystyried ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig.

**Manteision**

6.19 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai modd caniatáu cais yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig i fynd yn ôl i'r system reoli seciwlar.

6.20 Byddai hefyd yn fodd i sicrhau eglurder o ran pa adeileddau ac adeiladau a fyddai'n dod o dan yr esemptiad neu o dan y trefniadau

rheoli seciwlar, gan arwain at lai o achosion lle y byddai adeiladau'r enwadau esempt yn dod o dan ddwy system reoli.

6.21 Byddai'r Gorchymyn yn cael ei wneud yn gliriach ac yn haws ei ddefnyddio drwy ddileu nifer helaeth o ddarpariaethau sydd wedi mynd yn ddi-rym ac sy'n berthnasol i Loegr yn unig. Byddai hefyd yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog oherwydd y byddai'n is-ddeddfwriaeth newydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Opsiwn 4 — Dileu'r esemptiad eglwysig yn gyfan gwbl

6.22 O dan adran 60(1) o Ddeddf 1990, mae adeiladau eglwysig a ddefnyddir at ddibenion eglwysig yn cael eu hesemptio rhag y rhan fwyaf o'r trefniadau rheoli sy'n gysylltiedig ag adeiladau rhestredig. Mae is-adran 75(1)(b) yn gwneud yr un peth ar gyfer ardaloedd cadwraeth. Byddai'r opsiwn hwn yn defnyddio'r pŵer yn is-adrannau 60(5) a 75(7) i wneud gorchymyn a fyddai'n cyfyngu ar weithredu'r esemptiadau neu'n eu hatal drwy ddileu'r esemptiad ar gyfer pob dosbarth o adeiladau eglwysig ac ar gyfer pob enwad. Byddai'n rhaid, felly, i'r enwadau a oedd gynt yn rhai esempt wneud ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig i'r awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer unrhyw waith ar eu hadeiladau eglwysig rhestredig.

### Costau

6.23 Ar awdurdodau cynllunio lleol y byddai'r effaith fwyaf, a hynny oherwydd mai nhw fyddai'n gyfrifol wedyn am benderfynu ar bob cais am gydsyniad adeilad rhestredig yn lle'r enwadau. Yn 2017-18, cafwyd cyfanswm o 232 o geisiadau am gydsyniad enwadol yng Nghymru, a phenderfynwyd ar 222 ohonynt gan esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru. Yn 2017-18, penderfynodd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ar gyfanswm o 827 o geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Felly, byddai dileu'r esemptiad yn arwain at gynnydd o ryw 25% yn llwyth gwaith adrannau cadwraeth. O edrych ar y 222 o geisiadau yr ymdriniodd yr Eglwys yng Nghymru â nhw, roedd 206 ohonynt mewn pedair esgobaeth, sy'n awgrymu ei bod yn debygol y byddai effaith anghymesur ar yr awdurdodau cynllunio lleol perthnasol.

6.24 Nid yw awdurdodau lleol yn codi tâl am geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig felly ni fyddai unrhyw gostau i'r eglwysi a fu gynt yn esempt wrth iddynt wneud cais am gydsyniad. Fodd bynnag, o dan y trefniadau presennol, byddai'n rhaid iddynt barhau i gyflwyno cais am gydsyniad i'r enwad llywodraethu, felly byddai unrhyw waith yn dod o dan ddwy system reoli.

6.25 Hefyd, mae'n bosibl y bydd yn anodd i adrannau cadwraeth yr awdurdodau lleol feithrin yr un lefel o wybodaeth arbenigol a phrofiad â'r enwadau, a'r arbenigedd y maent wedi'i ddatblygu ers amser maith mewn gofalu am fannau addoli rhestredig.

**Manteision**

6.26 Mae’n bosibl y byddai rhai’n barnu bod dileu’r esemptiad eglwysig yn fodd i sicrhau cydraddoldeb drwy roi’r gorau i roi triniaeth arbennig i adeiladau eglwysig. Fodd bynnag, byddai sefydliadau crefyddol yn gwrthwynebu dileu’r esemptiad, a hynny ar y sail y byddai’n gorfodi dulliau rheoli seciwlar ar ryddid i addoli drwy arfer rheolaeth ar sut y maent yn rheoli eu mannau addoli.

**Opsiwn 5 — Dirymu Gorchymyn 1994 a pheidio â chyflwyno un yn ei le**

6.27 O dan yr opsiwn hwn, byddai Gorchymyn 1994 yn cael ei ddirymu ac, yn unol ag adrannau 60 a 74 o Ddeddf 1990, byddai pob adeilad eglwysig sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig yn esempt rhag y trefniadau rheoli ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth pan fyddent yn gwneud unrhyw waith. Byddent hefyd yn cael eu hesemptio rhag pwerau penodol eraill sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys hysbysiadau gwaith brys a chaffael gorfodol pe bai’r adeilad yn cael ei esgeuluso.

6.28 Mae rhyw 2,000 o fannau addoli rhestredig yng Nghymru ac mae dros draean ohonynt yn adeiladau rhestredig gradd I a II*. Mae gan bob un o’r chwech enwad sy’n parhau’n esempt o dan Orchymyn 1994 drefniadau cadarn ar gyfer asesu effaith gwaith ar fannau addoli rhestredig, ac mae’r trefniadau hynny cystal, os nad yn well, na’r systemau seciwlar. Fodd bynnag, gallai enwadau a grwpiau ffydd llai ei chael yn anodd dod o hyd i’r arbenigedd angenrheidiol a datblygu systemau cyfatebol. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai gwaith amhriodol yn cael ei wneud ar adeiladau rhestredig pwysig heb unrhyw system reoli nac unrhyw gyfle i’r awdurdod cynllunio lleol oruchwylio’r gwaith.

**Cost**

6.29 Byddai arbedion o ran costau i’r awdurdodau cynllunio lleol a hefyd i berchenogion mannau addoli rhestredig nad ydynt yn dod o dan yr esemptiad ar hyn o bryd. Ni fyddai angen i’r awdurdodau ystyried ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ac ni fyddai angen i’r perchenogion baratoi ceisiadau o’r fath. Ond wedi dweud hynny, mae’n bosibl y byddai gorfod talu am gyngor arbenigol a fyddai wedi cael ei ddarparu gan swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol yn y gorffennol yn gwrthbwyso unrhyw arbedion i berchenogion.

6.30 Oherwydd na fyddai modd bellach gyflwyno ceisiadau i’r awdurdod cynllunio lleol, byddai angen i enwadau na fyddent wedi bod yn esempt yn y gorffennol ddatblygu systemau cadarn a phwyllgorau i benderfynu ar newidiadau i adeiladau rhestredig ar sail gwybodaeth.

6.31 Heb systemau cadarn i reoli gwaith ar adeiladau rhestredig, byddai cryn risg i adeiladau o arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol gael eu datblygu mewn ffordd amhriodol neu anghydnaws.

6.32 Ni fyddai nodd cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn unrhyw waith na fyddai wedi cael ei awdurdodi ac ni fyddai modd gweithredu pan fyddai adeilad mewn perygl oherwydd esgeulustod.

**Manteision**

6.33 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r esemptiad yn gymwys yn yr un modd i bawb sy'n berchen ar fannau addoli, ond, o gofio na fyddai unrhyw drefniadau rheoli statudol yn eu lle, gellid dadlau y byddai'n gwahaniaethu yn erbyn y rheini sy'n berchenogion seciwlar ar adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth. Byddai'n rhaid iddynt hwy barhau i wneud cais am gydsyniad a byddent yn agored i gamau gorfodi a sancsiynau cyfreithiol.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

6.34 Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir. Byddai'n dirymu Gorchymyn 1994 ac yn cyflwyno Gorchymyn dwyieithog

6.35 Ychydig iawn o oblygiadau o ran cost a fyddai i'r opsiwn hwn, ond byddai'n newid yr enwadau esempt ac yn cyflwyno nifer o newidiadau polisi bach. Byddai hynny'n golygu y byddai mwy o eglurder o ran cyfrifoldebau a byddai'n lleihau'r angen i geisiadau gael eu hystyried o dan ddwy system.

## 7. Y Prawf Effaith ar Gwmnïau

| Y prawf effaith ar gwmnïau | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | Ateb<br><br>**Ie Na** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad? | Nac Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/ arnynt, a yw'r tri chwmni mwyaf yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad? | Nac ydynt |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn llawer iawn mwy nag eraill? | Na fyddent |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar adeiledd y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydynt |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddent |
| **C8**: A oes newidiadau technolegol ar raddfa fawr yn digwydd o fewn y sector? | Nac oes |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu nwyddau? | Na fyddent |